COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl177

Amseru: Brys - Mae angen penderfyniad er mwyn cyhoeddi adroddiad ar gyfer cyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd, Gorffennaf 2020

Teitl: Cwmni dylunio ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd 2019/2020

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Llywodraethu/Cyllid

Crynodeb Gweithredol:
Disgwylir i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gynhyrchu adroddiad blynyddol o'i weithgareddau yn erbyn blaenoriaethau ei Gynllun Heddlu a Throseddu a swyddogaethau statudol sydd wedi'u cyflenwi.
Ysgrifennwyd yr adroddiad gan staff SCHTh, a llynedd, dyluniwyd yr adroddiad gan gwmni allanol i sicrhau gwasanaeth proffesiynol a phrydlon, o fewn cyfyngiadau amser.
Er mwyn cynhyrchu Adroddiad proffesiynol ar gyfer 2019/2020, mewn pryd i'w gyflwyno i Banel yr Heddlu a Throsedd ym mis Gorffennaf 2020, gofynnir am gymeradwyaeth i'w ddylunio gan gwmni allanol.
Gofynnwyd am ddyfynbrisiau gan nifer o gwmnïau lleol, a chawsom amcanbrisiau gan 3 chwmni. Mae'r cwmni a ddewiswyd wedi dangos y gall ddarparu'r gwasanaeth sydd angen am gost resymol, a bydd yn darparu'r hyblygrwydd sydd angen ar gyfer gwneud diwygiadau wrth i'r cynnyrch gael ei ddatblygu; yn cwrdd â'n llinell amser ar gyfer cyhoeddi. Mae gallu'r cwmni a ddewiswyd i gyflwyno gwasanaeth ddwyieithog hefyd yn bodloni anghenion y prosiect.

Argymhelliad: Cymeradwyo'r penderfyniad y bydd Elgan Griffiths yn ymgymryd â'r gwaith o gynllunio Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2019/2020 am gost o £20 y dudalen a ddyluniwyd yn y fersiwn gyntaf (Saesneg), a £10 y dudalen a ddyluniwyd yn yr ail fersiwn (Cymraeg).

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 03/06/2020**